**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Lee Waters AS,
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

14 Mehefin 2023

Annwyl Ddirprwy Weinidog

Ar 23 Mai, gwnaethoch gyhoeddi yn y Cyfarfod Llawn y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i wasanaethau bysiau yng Nghymru hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Byddwch yn ymwybodol o bryderon parhaus y Pwyllgor am gyllid i wasanaethau bysiau a'n trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r sector bysiau a llywodraeth leol yn gynharach ym mis Mai.

Roeddem yn falch bod y sector bysiau wedi croesawu'r cyhoeddiad cyllido, gyda'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr a Chymdeithas Coetsys a Bysiau Cymru (CaBAC) ill dau yn ymateb yn gadarnhaol i'r newyddion. Nodwn y bu galwadau am ragor o fanylion ac eglurhad o rai materion. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch ynglŷn â sawl mater a godwyd gyda ni ac yn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn.

## Trefniadau cyllid hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol

Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau presennol ddod i ben ar 24 Gorffennaf 2023. Gwnaethoch gyhoeddi y bydd £46 miliwn ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad hwn.

Fel y nodwyd gennych yn eich datganiad, mae cymorth o fath arall i'r sector bysiau yn cynnwys cyllid ar gyfer prisiau rhatach i bobl hŷn, tocynnau rhatach i bobl ifanc, a'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau. Mae'r Grant hwn, sydd â chyfanswm o £25 miliwn, yn rhan o'r cymorth rheolaidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r diwydiant bysiau.

Bydd y cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod gwasanaethau TrawsCymru yn parhau ac i wneud cynnydd o 10.1% i'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn ei ad-dalu i weithredwyr ar gyfer defnyddwyr sy'n cael prisiau rhatach.

- A allwch chi ddarparu dadansoddiad manwl o'r cyllid a fydd yn ffurfio'r £46 miliwn y gwnaethoch ei gyhoeddi?
- Sut fydd y £46 miliwn ychwanegol ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r trefniadau ar gyfer y cynllun olynol yn cael ei ddosbarthu ymhlith gwahanol wasanaethau?
- Pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i bennu dyraniad y cyllid hwn?

Er gwaethaf y dyraniad ychwanegol, rydych wedi cydnabod nad yw'n ddigonol i ddiogelu pob gwasanaeth fel y mae. Rydych chi wedi dweud y byddai angen £7 miliwn i £9 miliwn ychwanegol i wneud hynny.

Gwnaethoch gydnabod yn eich datganiad fod patrymau teithio wedi newid oherwydd y pandemig, gyda llai o deithiau i'r gwaith a mwy o deithiau hamdden. Felly, mae angen dylunio rhwydwaith o wasanaethau sy'n adlewyrchu'r newidiadau hyn, sy'n gofyn am weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr. Sefydlwyd Timau Cynllunio Rhanbarthol i werthuso pa wasanaethau all oroesi heb gymorth ariannol ychwanegol a pha rai y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid. Gwnaethoch chi ddweud wrth y Senedd fod disgwyl penderfyniadau ynghylch ailstrwythuro gwasanaethau yn fuan oherwydd terfynau amser tyn yn ymwneud â dadgofrestru bysiau, ymgynghoriadau â gweithwyr, a diswyddiadau posibl.

- Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer y gwaith hwn a'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr undebau llafur am yr effaith bosibl ar swyddi.
- A allech chi ymhelaethu ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pennu pa wasanaethau bws fydd yn parhau yn sgil y diffyg ariannol cydnabyddedig?

Gwnaethoch chi gyhoeddi y bydd y cyllid £46 miliwn yn cynnwys trefniadau cyllid ychwanegol ar gyfer olynydd y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau. Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am eich bwriadau.

- A allech chi roi rhagor o fanylion am eich bwriadau ar gyfer y trefniadau am gynllun olynol i'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ym mlwyddyn ariannol 2024/25 i roi sicrwydd na fydd y sefyllfa bresennol yn cael ei hailadrodd yn y flwyddyn ariannol nesaf?
- Beth yw'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer ariannu gwasanaethau bws yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25?

- Mae cynrychiolwyr llywodraeth leol wedi awgrymu y gallai cael pris penodol yn hytrach na rhai tocynnau rhatach fod yn fanteisiol. Ydy hyn yn rhywbeth yr ydych yn ei ystyried? A allwch chi roi rhagor o wybodaeth am unrhyw ddadansoddiad sydd wedi'i wneud ynghylch yr opsiwn hwn?
- Sut mae effaith ehangach darparu gwasanaethau bysiau yn cael ei adlewyrchu ym mhroses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru? Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ystyried effaith gadarnhaol buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus ar feysydd polisi eraill, megis iechyd, ac a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhinweddau ailgyfeirio cyllid o bortffolios eraill yn y cyd-destun hwnnw?

**Cyllid gan Lywodraeth y DU**

Ar 17 Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr hyn a ddisgrifiodd fel buddsoddiad newydd gan Lywodraeth y DU o £300 miliwn i gefnogi gwasanaethau bysiau tan 2025. O hyn, bydd £160 miliwn yn cael ei ddarparu i awdurdodau trafnidiaeth lleol yn Lloegr i wella prisiau, gwasanaethau a seilwaith a bydd £140 miliwn yn mynd yn uniongyrchol i weithredwyr i helpu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol ledled Lloegr.

Yn ystod eich datganiad, gwnaethoch chi ddweud na fyddai unrhyw gyllid Barnett canlyniadol yn dod i Gymru gan fod Trysorlys y DU wedi penderfynu bod y cyllid hwn yn dod o'r cyllidebau presennol. Gwnaethoch chi gwestiynu tryloywder Trysorlys Llywodraeth y DU a gwnaethoch sôn bod Llywodraeth Cymru yn ystyried codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

- A allech roi rhagor o wybodaeth am y trafodaethau rydych wedi'u cael am y diffyg cyllid canlyniadol Barnett i Gymru yn dilyn cyhoeddiad buddsoddi Llywodraeth y DU?
- Beth yw camau nesaf Llywodraeth Cymru o ran y mater hwn?

**Cynigion masnachfreinio bysiau**

Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am ddatrysiad mwy cynaliadwy, gyda rhwydwaith sy'n adlewyrchu patrymau teithio newidiol ac sy’n helpu’r broses o bontio i fasnachfreinio. Gwnaethoch ddweud wrth y Senedd, wrth baratoi ar gyfer y model masnachfreinio hwn, fod Trafnidiaeth Cymru wrthi'n gweithio gydag awdurdodau lleol i gynllunio rhwydweithiau bysiau lleol. Penodwyd Jonathan Bray, ffigwr profiadol iawn yn y diwydiant bysiau, i arwain grŵp o arbenigwyr i lunio'r system fasnachfreinio newydd.

Yn eich datganiad, pwysleisioch bwysigrwydd arian cyhoeddus digonol ar gyfer masnachfreinio, gan ddweud bod angen buddsoddiad digonol ar hyd yn oed y systemau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u cynllunio orau er mwyn gweithredu'n effeithiol. Gwnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod penderfyniadau ariannu yn adlewyrchu dewisiadau gwleidyddol am flaenoriaethau ac yn galw am ystyriaeth o'r newydd o bwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus.

- Yn sgil brys y sefyllfa bresennol, a allwch chi nodi pryd y bydd Bil y Senedd ar fasnachfreinio bysiau yn cael ei gyflwyno?
- Beth yw'r broses arfaethedig ar gyfer trosglwyddo i fodel masnachfreinio bysiau, a sut y byddwch yn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau yn ystod y cyfnod pontio hwn?
- Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer trosglwyddo i fodel masnachfreinio bysiau?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer y newid hwn?
- O ystyried eich bwriad mai Llywodraeth Cymru fydd yr awdurdod masnachfreinio ac yn cario'r risg refeniw ar gyfer pob gwasanaeth bws masnachfraint ledled Cymru, a allwch amlinellu sut y bydd y trefniant arfaethedig yn sicrhau bod y risg hon yn cael ei rheoli ac nad yw'r heriau a'r ansicrwydd ariannol presennol yn cael eu hailadrodd a'u gwaethygu drwy fasnachfreinio?

**Cyllid rheilffyrdd**

Ar 28 Mawrth, ysgrifennodd Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru at y Pwyllgor hwn er mwyn egluro'r rhesymau technegol am tua £306.7 miliwn o gynnydd mewn costau cyflenwi ar gyfer moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae hyn bron i 42 y cant yn uwch na chyfanswm amcangyfrif costau 2018, sef £738 miliwn.

- Sut bydd y cynnydd hwn mewn costau yn cael ei ariannu? Ym mhle yng nghyllideb Llywodraeth Cymru y bydd y cyllid i fodloni'r diffyg hwn, a beth na fydd yn cael ei gyflawni o ganlyniad i hynny?
- Sut mae'r costau cynyddol ar gyfer moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd wedi dylanwadu ar ddosbarthu cyllid mewn perthynas â gwasanaethau bysiau?
- Byddwch yn ymwybodol o adroddiadau blaenorol fod gennym bryderon parhaus am broses gyllidebu Trafnidiaeth Cymru, yn enwedig ei gymhlethdod a'i ddiffyg tryloywder. Gyda hyn mewn golwg, pam na gafodd y cynnydd o ran costau cyflawni ei nodi mewn pryd er mwyn cael ei ystyried yn ystod y broses o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?
- Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw gwasanaethau bws yn dioddef oherwydd y costau cynyddol sy'n codi o brosiectau rheilffyrdd?

### Terfynau cyflymder 20mya

O fis Medi 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig. Bydd gan awdurdodau lleol rywfaint o hyblygrwydd i bennu eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru.

- Pa waith modelu sydd wedi'i wneud i asesu effaith y polisi terfyn cyflymder diofyn 20mya ar y rhwydwaith bysiau?
- A oes hyblygrwydd gan awdurdodau lleol, wrth benderfynu ar eithriadau i'r terfyn 20mya diofyn, i benderfynu y dylai prif lwybr allweddol fod yn eithriad o dan y polisi, os yw'n credu y byddai terfyn cyflymder o 20mya ar y llwybr yn cael effaith andwyol sylweddol ar y rhwydwaith bysiau, yn enwedig ar ei hyfywedd ariannol?

### Trafnidiaeth ysgol

Mae cyllid sylweddol yn cael ei fuddsoddi'n anuniongyrchol yn y sector bysiau drwy ddarparu trafnidiaeth ysgol gan awdurdodau lleol. Yn ôl yr adroddiad ar wariant ysgolion yng Nghymru, mae cludiant o'r cartref i'r ysgol bellach yn cyfrif am tua chwarter holl wariant uniongyrchol awdurdodau lleol ar addysg, gyda chyfanswm o tua £137 miliwn.

- Sut y bydd y newidiadau i gyllid gwasanaethau bysiau yn effeithio ar y cyllid ar gyfer darparu cludiant ysgol gan awdurdodau lleol?
- Pa opsiynau sy'n cael eu hystyried i integreiddio cludiant ysgol gyda chymorth bysiau ehangach i wella cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd y ddau?
- Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod gwasanaethau cludiant ysgol yn parhau i gael eu hariannu'n ddigonol?

### Hyrwyddo defnyddio bysiau

Rydym yn cydnabod bod ynni ac adnoddau wedi canolbwyntio ar yr argyfwng tymor byr ond nodwn fod adfer y defnydd o fysiau yn hanfodol ar gyfer iechyd gwasanaethau bysiau yn y dyfodol yn y tymor hwy. Gwnaethoch chi ddweud wrth y Senedd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ymgyrch i annog mwy o bobl i ddefnyddio bysiau.

Roeddech hefyd yn cyfeirio at fethiant y system gynllunio i annog pobl i ddefnyddio bysiau, yn enwedig mewn datblygiadau tai newydd, a dywedoch fod Llywodraeth Cymru yn ceisio unioni hyn drwy 'Cymru'r Dyfodol'.

- Pa strategaethau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau bysiau, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau tai newydd?

- A ydych wedi ystyried effaith y gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau ar eich gallu i gyrraedd targedau newid moddol Llywodraeth Cymru?

Yn olaf, manteisiodd y Pwyllgor ar ymchwil a wnaed gan yr Athro Mitchel Langford a’r Athro Gary Higgs ym Mhrifysgol De Cymru yn ystod ein hymchwiliad i ddyfodol bysiau a threnau, yn benodol eu datblygiad o Ddangosydd Mynediad at Fysiau Cymru a oedd yn ein galluogi i ddeall effaith newidiadau i'r rhwydwaith bysiau sy'n deillio o’r pandemig Covid 19. Rydym yn deall bod yr academyddion hyn wedi datblygu'r fethodoleg hon ymhellach ers hynny, ac rydym hefyd yn gwneud gwaith ehangach yn y maes hwn.

Rydym o’r farn y gallai hyn fod yn berthnasol i'r broses bresennol o fireinio'r rhwydwaith bysiau yn ogystal â'ch paratoi ar gyfer cyflwyno masnachfreinio a byddem yn annog eich swyddogion a'ch cydweithwyr yn Trafnidiaeth Cymru i gysylltu â'r Athro Higgs a’r Athro Langford. Bydd Clerc y Pwyllgor yn cysylltu â’ch swyddogion gyda’u manylion cyswllt.

Yn gywir,

Heledd Fychan AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.